WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o'r Trefniadau Diogelu Corfforaethol – **Cyngor Sir Ceredigion**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1253A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cwblhawyd y gwaith gan dîm a oedd yn cynnwys Richard Hayward, Nigel Griffiths a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys


Crynodeb 4

Cynigion gwella 5

Adroddiad manwl 7

Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli gwell ar waith a ddylai roi mwy o sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er bod angen cryfhau'r trefniadau mewn rhai meysydd ymhellach 7

Mae'r polisi diogelu corfforaethol diwygiedig yn diweddaru trefniadau diogelu'r Cyngor, ond mae angen gweithredu i wella'r trefniadau llywodraethu a'r gweithdrefnau mewn rhai meysydd 7

Mae angen egluro a chryfhau swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Grŵp Gweithredol Lleol, Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Swyddogion Diogelu Dynodedig 7

Nid yw'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n cael cyfle i ystyried pob adroddiad diogelu 8

Er bod y Cyngor yn cynnwys diogelu fel risg yn ei gofrestr risg gorfforaethol, mae'r broses o bennu risgiau diogelu yn wannach o fewn gwasanaethau, ac mae angen ystyried hyn yn ystod adolygiad cyfredol y Cyngor o'r modd y mae'n pennu ac yn cofnodi risgiau 8

Mae gan y Cyngor broses effeithiol o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a recriwtio diogel 9

Mae arferion recriwtio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o broses gaffael y Cyngor ond byddai modd cryfhau'r broses o fonitro trefniadau diogelu contractwyr ar ôl dyfarnu contractau 9

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i ddarparu hyfforddiant diogelu i gynghorwyr, staff a gwirfoddolwyr 10

Nid yw trefniadau'r Cyngor i fonitro ac i werthuso perfformiad diogelu yn cydymffurfio'n llwyr â'i bolisi diogelu 11

Mae angen datblygu ymhellach drefniadau'r Cyngor i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ei drefniadau diogelu 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion o ran yr argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015) 13

# Crynodeb

## Beth wnaethom ei adolygu a pham?

1 Buom yn adolygu trefniadau corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) i ddiogelu plant ac oedolion. Er bod rhai o'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â diogelu yn gweithredu ar sail ranbarthol – drwy Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru – roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ei hun.

2 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn i gael sicrwydd bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau diogelu corfforaethol effeithiol ar waith. Buom yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i roi ar waith yr argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)[1]. Buom hefyd yn ystyried canfyddiadau ein hadolygiad dilynol yn 2016 o drefniadau'r Cyngor i helpu i ddiogelu plant[2].

3 Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019.

## Beth wnaethom ei ganfod?

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn hwn: A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu?

5 Yn gyffredinol, canfuwyd: **Bod y Cyngor yn rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli gwell ar waith a ddylai roi mwy o sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er bod angen cryfhau'r trefniadau mewn rhai meysydd ymhellach.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r polisi diogelu corfforaethol diwygiedig yn diweddaru trefniadau diogelu'r Cyngor, ond mae angen gweithredu i wella'r trefniadau llywodraethu a'r gweithdrefnau mewn rhai meysydd:
  - Mae angen egluro a chryfhau swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Grŵp Gweithredol Lleol, Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Swyddogion Diogelu Dynodedig;
  - Nid yw'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n cael cyfle i ystyried pob adroddiad diogelu;
  - Er bod y Cyngor yn cynnwys diogelu fel risg yn ei gofrestr risg gorfforaethol, mae'r broses o bennu risgiau diogelu yn wannach o

[1] Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.archwilio.cymru

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Adolygiad Dilynol o Drefniadau Awdurdodau Lleol i Helpu i Ddiogelu Plant – Cyngor Sir Ceredigion**, Swyddfa Archwilio Cymru, Mehefin 2016

  - fewn gwasanaethau, ac mae angen ystyried hyn yn ystod adolygiad cyfredol y Cyngor o'r modd y mae'n pennu ac yn cofnodi risgiau;
  - Mae gan y Cyngor broses effeithiol o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a recriwtio diogel;
  - Mae arferion recriwtio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o broses gaffael y Cyngor ond byddai modd cryfhau'r broses o fonitro trefniadau diogelu contractwyr ar ôl dyfarnu contractau;
  - Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i ddarparu hyfforddiant diogelu i gynghorwyr, staff a gwirfoddolwyr.
- Nid yw trefniadau'r Cyngor i fonitro ac i werthuso perfformiad diogelu yn cydymffurfio'n llwyr â'i bolisi diogelu.
- Mae angen datblygu ymhellach drefniadau'r Cyngor i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ei drefniadau diogelu.

# Cynigion gwella

Arddangosyn 1: cynigion gwella

| **Cynigion gwella** | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor: | |
| C1 | Egluro a chryfhau swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Grŵp Gweithredol Lleol, Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Swyddogion Diogelu Dynodedig. |
| C2 | Sicrhau bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael gweld pob adroddiad diogelu allweddol er mwyn iddo ystyried ei gynnwys yn ei flaenraglenni gwaith. |
| C3 | Adolygu ei drefniadau i bennu risgiau diogelu ac i roi gwybod amdanynt ar lefel gwasanaeth. |
| C4 | Rhoi gweithdrefnau ar waith i ymgymryd â gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bod contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir yn cydymffurfio â gofynion diogelu'r Cyngor. |
| C5 | Diwygio'r fframwaith rheoli perfformiad diogelu i sicrhau bod yr hyn a ganlyn yn cael ei adrodd:<br>• yr ystod lawn o wybodaeth am y perfformiad o ran diogelu oedolion;<br>• y 12 dangosydd perfformiad cenedlaethol a lleol a nodir yn y polisi diogelu. |
| C6 | Diwygio strwythur a chynnwys Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gweithredu'r Bwrdd Diogelu Strategol i roi mwy o fanylion am yr hyn a ganlyn:<br>• y perfformiad diogelu corfforaethol;<br>• y prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn a'r cyfleoedd i wella;<br>• blaenoriaethau a gwaith arfaethedig y flwyddyn ganlynol. |

| Cynigion gwella | |
|---|---|
| C7 | Rhoi rhaglen o adolygiadau Archwilio Mewnol ar waith i adolygu’r trefniadau a’r gweithdrefnau diogelu. |
| C8 | Diwygio’r trefniadau i adrodd ar y camau i roi argymhellion adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ac i fonitro’r camau hynny. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli gwell ar waith a ddylai roi mwy o sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er bod angen cryfhau'r trefniadau mewn rhai meysydd ymhellach

### Mae'r polisi diogelu corfforaethol diwygiedig yn diweddaru trefniadau diogelu'r Cyngor, ond mae angen gweithredu i wella'r trefniadau llywodraethu a'r gweithdrefnau mewn rhai meysydd

#### Mae angen egluro a chryfhau swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Grŵp Gweithredol Lleol, Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Swyddogion Diogelu Dynodedig

6 Cymeradwyodd y Cyngor ei bolisi diogelu corfforaethol diwygiedig ar 13 Rhagfyr 2018. Mae'r polisi diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau i'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau diogelu yn sgil yr ailstrwythuro corfforaethol ac yn rhoi sylw i ddeddfwriaeth ddiweddar gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff, cynghorwyr a gwirfoddolwyr.

7 Mae'r polisi diogelu'n disgrifio'r trefniadau llywodraethu i reoli diogelu yn y Cyngor. Mae'n nodi'n glir mai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r uwch-swyddog arweiniol ar gyfer diogelu ac mai'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant a Diwylliant yw'r aelod arweiniol.

8 Mae tri phrif grŵp yn gyfrifol am reoli diogelu yn y Cyngor yn strategol ac yn weithredol:

- y Bwrdd Diogelu Strategol – mae'n gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau diogelu cadarn;
- y Grŵp Gweithredol Lleol – Plant ac Oedolion – mae'n gyfrifol am fonitro a dadansoddi arferion a pherfformiad diogelu a rhoi adroddiadau yn eu cylch;
- Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig – mae'n gyfrifol am rannu gwybodaeth am ddiogelu ar draws y Cyngor, am fonitro'r perfformiad diogelu ar lefel gwasanaethau, ac am adrodd ar y perfformiad hwnnw.

9 Fel rhan o'n gwaith, aethom i gyfarfod y Grŵp Gweithredol Lleol ym mis Mawrth. Roedd ystod eang o sefydliadau'n bresennol, gan gynnwys y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Heddlu Dyfed Powys. Ymhlith y testunau a drafodwyd roedd rheoli perfformiad, a hynny ar sail adroddiad cynhwysfawr am berfformiad y gwasanaethau diogelu plant.

10 Fodd bynnag, roedd prinder gwybodaeth am y perfformiad o ran diogelu oedolion. Cyfeirir at hyn mewn mwy o fanylder yn ddiweddarach yn yr adroddiad

(paragraffau 26-28). Heb yr wybodaeth hon, ni all y Grŵp Gweithredol Lleol gyflawni ei rôl yn llwyr o ran y gwasanaethau diogelu oedolion.

11 Mae Swyddogion Diogelu Dynodedig pob gwasanaeth yn aelodau o Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig. Bwriad y Cyngor yw defnyddio Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r rhwydwaith o Swyddogion Diogelu Dynodedig i reoli ac i gydgysylltu materion diogelu mewn gwasanaethau unigol. Rhestrir manylion y Swyddogion Diogelu Dynodedig yn y polisi diogelu ac yn adran diogelu llawlyfr staff y Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd nifer o'r swyddogion y buom yn siarad â nhw yn gwybod enw eu Swyddog Diogelu Dynodedig ac, o'r herwydd, nid oeddent yn sicr â phwy y dylid cysylltu ynghylch materion diogelu.

12 Mae'r polisi diogelu'n pennu nifer o dasgau gofynnol ar gyfer pob gwasanaeth i'w datblygu, eu rheoli a'u cydgysylltu gan Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Swyddogion Diogelu Dynodedig. Yn eu plith mae polisïau diogelu gwasanaeth-benodol, rhaglenni archwilio, a mesurau perfformiad gwasanaeth-benodol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu llunio fel mater o drefn.

## Nid yw'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n cael cyfle i ystyried pob adroddiad diogelu

13 Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n gyfrifol am graffu ar faterion diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn cael gweld pob un o'r adroddiadau diogelu allweddol a gyflwynir i'r tri grŵp rheoli. Mae rhai adroddiadau, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion, yn mynd yn uniongyrchol i'r Cabinet, neu drwy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, ac nid yw'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn eu gweld.

14 Er mwyn i'r cynghorwyr herio holl weithgareddau diogelu'r Cyngor yn effeithiol, mae'n bwysig bod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael gweld pob adroddiad diogelu allweddol. Yna, gall ystyried a oes angen iddo ymgymryd â gwaith craffu a herio yn ei flaenraglen waith.

## Er bod y Cyngor yn cynnwys diogelu fel risg yn ei gofrestr risg gorfforaethol, mae'r broses o bennu risgiau diogelu yn wannach o fewn gwasanaethau, ac mae angen ystyried hyn yn ystod adolygiad cyfredol y Cyngor o'r modd y mae'n pennu ac yn cofnodi risgiau

15 Mae cofrestr risg gorfforaethol y Cyngor yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd wythnosol y Grŵp Arweinyddiaeth ac mae'n tynnu sylw at risgiau diogelu plant ac oedolion. Mae'r gofrestr yn cynnwys manylion y camau i liniaru pob risg ddiogelu ac yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed. Tybir mai rhoi trefniadau llywodraethu a rheoli'r polisi diogelu ar waith yw un o'r prif gamau i'w cymryd i leihau risgiau.

16 Nid yw trefniadau'r Cyngor i reoli risgiau diogelu ar lefel gwasanaethau wedi datblygu i'r un graddau. Dim ond y Gwasanaethau Plant oedd wedi cynnwys diogelu fel risg yn eu cofrestr risg yn 2018-19. Dylid cynnwys risgiau diogelu yng nghofrestri risg a/neu gynlluniau busnes y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau

oedolion o leiaf, a dylid ystyried eu cynnwys ym mhob un o gofrestri risg a/neu gynlluniau busnes gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae'r Cyngor yn adolygu'r modd y mae'n mynd ati i bennu ac i gofnodi risgiau fel rhan o'r broses o gyflwyno system rheoli risg newydd yn 2019.

17 Mae'r polisi diogelu'n nodi ei bod yn ofynnol i bob gwasanaeth ystyried diogelu yn ystod y broses cynllunio busnes. Roedd y swyddogion y buom yn siarad â nhw'n teimlo y gallai'r Swyddogion Diogelu Dynodedig gynorthwyo i bennu risgiau diogelu a'r camau i'w lliniaru ar lefel gwasanaethau.

## Mae gan y Cyngor broses effeithiol o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a recriwtio diogel

18 Mae gan y Cyngor bolisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a recriwtio diogel a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2017. Mae'n cwmpasu'r holl staff, cynghorwyr, llywodraethwyr ysgol, gwirfoddolwyr a staff contractwyr.

19 Mae gan y Cyngor drefniadau clir i gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd. Mae'r rheolwr recriwtio a'r adran adnoddau dynol yn pennu a oes angen gwiriad sylfaenol neu fanylach ar gyfer swydd neu rôl ac, os felly, ar ba lefel. Yn unol â'r polisi, mae'n ofynnol cynnal gwiriadau manylach y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ar gyfer unrhyw swydd/rôl lle bydd unigolion yn gweithio gyda grwpiau o blant neu oedolion sy'n agored i niwed. Pan gytunir ar lefel gwiriad y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ar gyfer swydd/rôl, mae'r Cyngor yn cofnodi'r wybodaeth hon yn y system adnoddau dynol ganolog i arbed amser os daw'r swydd yn wag eto.

20 Mae'r system adnoddau dynol gorfforaethol yn storio canlyniadau gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yng nghofnodion recriwtio staff, cynghorwyr, llywodraethwyr ysgol a gwirfoddolwyr. Mae'r system yn cynhyrchu adroddiadau sy'n dangos pa bryd y bydd y gwiriadau'n dod i ben a pha bryd y bydd angen eu hadnewyddu ar sail cylch tair blynedd.

21 Os bydd unrhyw wybodaeth anffafriol yn dod i law yn sgil gwiriad y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd, caiff ei hasesu yn erbyn 11 maen prawf sy'n cynnwys i ba raddau y mae'r swydd/rôl yn cael ei goruchwylio, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y drosedd, ac a yw deiliad y swydd/rôl yn dod i gysylltiad un i un â phlant neu grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Caiff yr asesiad ei lofnodi gan yr ymgeisydd, yr adran adnoddau dynol a phennaeth y gwasanaeth perthnasol, ac fe'i cedwir yn ffeil bersonol yr ymgeisydd.

## Mae arferion recriwtio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o broses gaffael y Cyngor ond byddai modd cryfhau'r broses o fonitro trefniadau diogelu contractwyr ar ôl dyfarnu contractau

22 Mae'r Cyngor yn darparu nifer o'i wasanaethau drwy drefniadau contractio a chomisiynu â sefydliadau trydydd parti. Caiff diogelu ei ystyried fel rhan o gamau tendro a chontractio'r gwasanaethau hyn. Yn unol â'r dogfennau tendro, mae'n ofynnol i gontractwyr gynnal gwiriadau manylach y Gwasanaeth Diogelu a

Gwahardd ar gyfer eu gweithlu, ac ni ddyfernir contract oni bai a hyd nes i'r broses gael ei chwblhau. Gall y Cyngor gynorthwyo sefydliadau llai o faint drwy drefnu gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ar eu rhan. Mae hefyd yn ofynnol i gontractwyr ddarparu tystiolaeth o'u polisïau diogelu mewnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r dogfennau tendro'n nodi manylion y broses y gall contractwyr ei defnyddio i roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw faterion neu bryderon diogelu.

23 Y gwasanaeth sy'n rheoli'r contract sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau'r contractwr i gydymffurfio â'r gofynion o ran y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd. Mae hyn yn cynnwys monitro dyddiad adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ar gyfer swyddi y mae angen cynnal gwiriadau newydd ar eu cyfer bob tair blynedd. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cadarn i roi'r sicrwydd parhaus sydd ei angen ar y Cyngor yn y maes hwn. Er enghraifft, ni chynhelir 'hapwiriadau' rheolaidd i asesu effeithiolrwydd trefniadau contractwyr o ran y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ac i sicrhau bod eu cofnodion yn gyfredol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i ddarparu hyfforddiant diogelu i gynghorwyr, staff a gwirfoddolwyr

24 Roedd gan yr holl swyddogion a chynghorwyr y buom yn siarad â nhw feddwl mawr o raglen hyfforddiant diogelu'r Cyngor. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu'n rhan o'r broses gynefino ar gyfer staff a chynghorwyr, ochr yn ochr â modiwlau eraill sy'n cynnwys chwythu'r chwiban a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ym mis Medi 2018, cyflwynwyd cyrsiau e-ddysgu gorfodol i ddarparu hyfforddiant diogelu sylfaenol ac maent yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer y staff presennol ac fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer staff newydd. Bydd staff sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau diogelu dynodedig yn cael hyfforddiant diweddaru bob tair blynedd.

25 Cedwir gwybodaeth am hyfforddiant diogelu yn system adnoddau dynol y Cyngor ac mae'r Tîm Dysgu a Datblygu'n monitro'r wybodaeth hon. Ym mis Chwefror 2019, roedd 680 aelod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol o ran diogelu oedolion ac roedd 752 wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu plant. Mae pob un o'r 42 cynghorydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion lefel un. Mae pump cynghorydd hefyd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant lefel dau. Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu i yrwyr tacsis, hyfforddiant diogelu iechyd meddwl mewn ysgolion, a hyfforddiant ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol a ffyrdd o'i atal ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr.

## Nid yw trefniadau'r Cyngor i fonitro ac i werthuso perfformiad diogelu yn cydymffurfio'n llwyr â'i bolisi diogelu

26 Mae gwybodaeth am berfformiad diogelu yn cael ei chyflwyno i grwpiau ar sawl lefel yn y Cyngor, a'i herio ganddynt, gan gynnwys y Grŵp Arweinyddiaeth, cyd-gyfarfodydd y Cabinet a'r Grŵp Arweinyddiaeth, y Bwrdd Diogelu Strategol, y Grŵp Gweithredol Lleol, a'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Dylai'r wybodaeth a ddarperir roi darlun cynhwysfawr o'r perfformiad ar draws y gwasanaethau diogelu plant ac oedolion. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau'n canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu plant, heb fawr ddim gwybodaeth am y perfformiad o ran diogelu oedolion. Roedd y swyddogion y buom yn siarad â nhw yn cydnabod hyn ac yn teimlo bod modd priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod dealltwriaeth eang o'r gofynion i adrodd am berfformiad diogelu plant, ond bod y trefniadau ar gyfer oedolion yn dal i esblygu yn sgil cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

27 Mae polisi diogelu'r Cyngor yn cynnwys cyfres lefel uchel o 12 dangosydd perfformiad cenedlaethol a lleol, gan gynnwys 'canran y staff sy'n cael hyfforddiant diogelu fel rhan o'r broses gynefino' a 'chanran y cynghorwyr sy'n cael hyfforddiant diogelu'. Yn unol â'r polisi, mae'n ofynnol rhoi adroddiadau bob chwarter i'r Bwrdd Diogelu Strategol am y perfformiad o ran y 12 dangosydd a'u cynnwys yn ei Adroddiad Blynyddol. Nid yw hyn yn digwydd. Nid oedd y swyddogion a'r cynghorwyr y buom yn siarad â nhw yn gwybod ei bod yn ofynnol adrodd am y perfformiad o ran y 12 dangosydd o dan y polisi.

28 Byddai modd gwella'r adroddiadau rheoli perfformiad drwy gynnwys mwy o ddata cymharol. Mae'r adroddiad chwarterol am blant yn fanwl iawn ac yn darparu rhywfaint o wybodaeth am dueddiadau, ond ni cheir unrhyw gymhariaeth â pherfformiad cynghorau eraill.

## Mae angen datblygu ymhellach drefniadau'r Cyngor i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd ei drefniadau diogelu

29 Un o brif nodau'r Bwrdd Diogelu Strategol yw helpu i roi sicrwydd i'r Cyngor fod ei waith diogelu'n cael ei gyflawni mewn 'modd effeithiol a chadarn'. Fodd bynnag, nid yw Adroddiad Blynyddol 2017-18 yn cynnwys digon o fanylder i roi sicrwydd o'r fath. Nid yw'n cynnwys fawr ddim gwybodaeth am berfformiad, yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, a'r gwelliannau a wnaed/y mae angen eu gwneud i drefniadau diogelu'r Cyngor.

30 Mae Adroddiad Blynyddol 2017-18 yn cynnwys cynllun gwaith y Bwrdd. Mae'r cynllun gwaith 'o fis Medi 2016' ac mae'n cynnwys y prosiectau hynny a gychwynnwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac sydd wedi'u cwblhau. Ceir prinder manylion am weithgareddau'r flwyddyn gyfredol. Dywedodd yr aelodau hynny o'r

Bwrdd y buom yn siarad â nhw y bydd cynllun gwaith 2018-19 yn canolbwyntio mwyfwy ar y cynnydd a wnaed o ran blaenoriaethau'r flwyddyn gyfredol ac y bydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ei fonitro bob chwarter.

31 Mae diogelu'n eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor. Dywedodd uwch-swyddogion wrthym fod hyn yn sicrhau bod materion diogelu'n cael eu trin a'u trafod yn rheolaidd.

32 Mae'r Cyngor yn ymgymryd â nifer o brosiectau sicrhau ansawdd diogelu, gan gynnwys cynnal archwiliadau annibynnol o ffeiliau mewn gwasanaethau ac archwiliadau diogelu corfforaethol thematig. Cyd-archwiliad o'r fframwaith 'arwyddion diogelwch' o ran plant ac oedolion oedd yr archwiliad thematig diweddaraf. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiadau ymarfer a digwyddiadau dysgu, ac mae'n mynd ati i gyflwyno ei ddull 'arwyddion diogelwch'.

33 Nid yw Archwilio Mewnol wedi cynnal asesiad annibynnol ffurfiol o drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n mynd ati fel mater o drefn i gynnal profion diogelu pan fydd yn cynnal ei adolygiadau, gan gynnwys gwirio bod pob aelod staff priodol wedi darparu dogfennau gofynnol y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd mewn sefydliadau fel ysgolion, canolfannau hamdden a chartrefi preswyl. Yn ystod 2018-19, cynhaliodd archwiliad o System Trwyddedu Perfformiadau Plant y Cyngor hefyd. Aeth y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Plant i un o gyfarfodydd diweddar y Bwrdd Diogelu Strategol i drafod yr archwiliad o'r prosesau a'r gweithdrefnau diogelu. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal rhaglen dreigl o adolygiadau i adolygu arferion diogelu'r Cyngor yn ystod 2019-20.

34 Nid yw'r Cyngor wedi rhoi ar waith yr holl argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru'. Yn Atodiad 1, rhestrir wyth o argymhellion yr adroddiad cenedlaethol ac asesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran pob un ohonynt. Cafodd argymhellion 1, 2, 6 ac 8 eu rhoi ar waith yn rhannol yn unig, ac nid yw'r Cyngor ond yn mynd i'r afael ag argymhelliad 7 eleni. Pe bai'r Cyngor wedi rhoi'r holl argymhellion hyn ar waith yn llwyr, byddai wedi mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 1

## Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion o ran yr argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)

| Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion i roi'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad cenedlaethol ar waith |
|---|---|---|
| A1 | Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu;<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Yn rhannol.<br><br>Mae angen egluro rôl Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Swyddogion Diogelu Dynodedig o ran rhoi diweddariadau i staff a rhanddeiliaid am newidiadau i benodiadau diogelu corfforaethol (gweler A2 hefyd). |
| A2 | Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Yn rhannol.<br><br>Mae angen egluro rhai o linellau atebolrwydd Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig, y Swyddogion Diogelu Dynodedig a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. |

| Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion i roi'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad cenedlaethol ar waith |
|---|---|
| A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd;<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Yn llwyr. |
| A4 Sicrhau bod yr holl staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr;<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Yn llwyr. |

| Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o’r cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion i roi’r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad cenedlaethol ar waith |
|---|---|---|
| A6[3] | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â’r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio’r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd;<br>• perfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r cyngor. | Yn rhannol.<br><br>Mae angen datrys materion o ran:<br>• egluro pa adroddiadau sy’n cael eu cyflwyno i/gan y grwpiau amrywiol, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Strategol, y Grŵp Gweithredol Lleol, Grŵp y Swyddogion Diogelu Dynodedig a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;<br>• adrodd am set gytbwys o ddangosyddion perfformiad;<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• rhoi argymhellion adolygiadau archwilio allanol ar waith;<br>• ymgymryd â gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bod contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir yn cydymffurfio â gofynion diogelu’r Cyngor. |
| A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu’r cyngor. | Yn rhannol.<br><br>Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal rhaglen dreigl o adolygiadau i adolygu arferion diogelu’r Cyngor yn ystod 2019-20. |
| A8 | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Yn rhannol.<br><br>Ceir trefniadau da ar lefel gorfforaethol ond mae angen gwneud mwy o waith ar lefel gwasanaethau. |

[3] Argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn hytrach na’r cynghorau oedd argymhelliad 5, felly nid yw wedi’i restru uchod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru